

Dros £15 miliwn wedi'i ddwyfornu i warchod



Gwlypdiroedd Dŵr Croyw y Mileniwm, yn edrych i'r dwyrain gyda chuddfan Adain y Crëyr yn y blaendir. Credyd: WWT.

Mae dau ddeg wyth o brosiectau wedi derbyn grantiau hyd at £1 miliwn i adfer a gwella bioamrywiaeth ar draws tir a môr.

O wlypdiroedd i goetiroedd, glaswelltiroedd i arfordiroedd, bydd y prosiectau'n helpu adeiladu rhwydwaith cryfach a mwy cydnerth o safleoedd gwarchodedig ar draws y wlad.

Bydd cymunedau'n cael eu hannog i gymryd rhan drwy weithgareddau prosiect a chyfrannu at adferiad byd natur ar raddfa'r dirwedd.

Cefnogaeth hirdymor i fyd natur

Bellach yn ei phumed rownd, daw'r ariannu o'r Gronfa Rhwydweithiau Natur yr ydym yn ei chyflwyno ar ran Llywodraeth Cymru ac mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Ers 2021 mae'r rhaglen wedi rhoi dros £54m o gefnogaeth i 147 o brosiectau ar draws Cymru.

Archwiliwch rai o'r prosiectau a ariannwyd

Whispers of the woodlands: saving the brown long-eared bat

Mae Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod yn derbyn £249,630 ar gyfer prosiect Cymru gyfan sy'n canolbwyntio ar gadwraeth yr ystlum clustig brown, o olwir yn annwyl yn ystlum eibaud.

Bydd y
casglu

wella



Ystlum clustig mewn dŏl wair. Credyd: Daniel Hargreaves.

Botanical Futureproofing for Protected Sites in Wales

Bydd rhywogaethau planhigion bregus yn cael eu diogelu gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru diolch i grant o £823,320. Bydd y prosiect yn darparu offer hanfodol ac yn ehangu casgliadau fflora dan fygythiad a gedwir ym Manc Hadau Cenedlaethol Cymru, sydd ar hyn o bryd yn gwarchod dim ond 11% o fflora Cymru. Bydd yr ariannu hefyd yn cefnogi gwelliannau seilwaith i Warchodfa Natur Genedlaethol Waun Las 150 hectar ei maint, gyda dulliau pori sy'n llesol i natur mewn golwg.



Casglu grwmwl porffor ym Mae Dwnrhefn. Credyd: Ellyn Baker.

Tir Morfa Wetland Connections

Mae WWT, yr elusen gwlypdiroedd, yn derbyn £548,406 i adfer cynefinoedd gwlypdiroedd hanfodol. Bydd y prosiect yn gwneud gwaith i WWT Llanelli a morlin Tir Morfa o'i gwmpas i wella amodau ar gyfer bywyd gwyllt, gan gynnwys adar gaeafu o bwys rhyngwladol, cysylltu pobl â byd natur ac adeiladu dyfodol sy'n gydnerth o ran yr hinsawdd ar gyfer ecosystem ehangach Cilfach Tywyn.



Pengocho cyffredin: aderyn a geir yn aml yn y DU yn ystod misoedd y gaeaf. Credyd: WWT.

Mae'r Gronfa Rhwydweithiau Natur yn rhan hanfodol o'n hymateb i'r argyfwng natur, ac mae'n ein helpu i greu Cymru fwy gwydn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Huw Irranca-Davies, y Dirprwy Brif Weinidog sy'n gyfrifol am y Newid yn yr Hinsawdd

Dywedodd Huw Irranca-Davies, y Dirprwy Brif Weinidog sy'n gyfrifol am y Newid yn yr Hinsawdd: "Mae'r buddsoddiad sylweddol hwn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i'n targedau rhyngwladol fel 30x30 sy'n cynyddu graddfa a chyflymder gweithredu gan helpu i ddiogelu treftadaeth naturiol Cymru. Trwy gefnogi'r prosiectau hyn, rydyn ni nid yn unig yn diogelu ecosystemau gwerthfawr ond hefyd yn grymuso cymunedau i ddod yn stiwardiaid dros eu hamgylcheddau lleol. Mae'r Gronfa Rhwydweithiau Natur yn rhan hanfodol o'n hymateb i'r argyfwng natur, ac mae'n ein helpu i greu Cymru fwy gwydn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."

Gwarchod treftadaeth naturiol y DU

[Gweler y rhestr lawn o brosiectau](#) sydd wedi'u hariannu yn y rownd hon o ddyfarniadau'r Gronfa Rhwydweithiau Natur a chael awybod [sut rydym yn cefnogi byd natur ar draws y DU](#).



efyd mewn ...



Mae gerddi hanesyddol ar flaen y gad o ran newid hinsawdd wrth i newidiadau tywydd difrifol effeithio ar bob agwedd ar dirweddau dyluniedig. Chiswick House and Gardens © Chris Gorman, Big Ladder Photography, Awst 2026.



fodi newid mewn parciau a gerddi hanesyddol

Bradford's project will connect communities across the city and nearby towns with nature. Credit: SWECO.



ddiad o £15miliwn

School children visit the Birmingham Botanical Garden glasshouses. Credit: Irina Mackie.

Dyfarnu £20 miliwn i chwe phrosiect sy'n cysylltu pobl â threftadaeth naturiol